

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Edmund Rees

Nos Lun Ebrill 1af 2019 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston, Cyng. Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Cyng. Gari B Jones yn datgan diddordeb yn eitem 11ar yr Agenda.
4. **Cofnodion mis Chwefror** cynigiwyd yn gywir gan Gwynfor Roberts gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Er mwyn ail drefnu'r 'Audit Walk' angen i'r Cyngorwyr anfon rhestr o welliannau sy angen ei gwneud yn yr ardal erbyn y cyfarfod nesaf.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 Conwy Cynhaliol – gwneud cais am gymhorthdal o £500.00 tuag at flodau, tybiau a.y.b. i'r pentref.
 - 6.2. Play Provision T & F Group – ni chafwyd cynigion am gynrychiolaeth i'r pwyllgor.
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
 - 8.1. Un Llais Cymru – ar gynigiad Gwynfor Roberts gyda Paul Weston yn eilio a phawb yn gytûn ail ymaelodi a thalu'r tâl aelodaeth o **£49.00** am y flwyddyn gyda siec rhif **100303**.
 - 8.2. Costau'r Clerc am 4mis – cynigiodd Paul Weston gyda Gari Jones yn eilio talu'r costau o Ragfyr i Fawrth **£73.60** gyda siec rhif **100304**.
9. **Archwilydd Mewnol:**

Penderfynwyd gofyn i Iona Edwards Llanrwst ymgymryd ar gwaith.
10. **Mantolen Flynyddol:**

Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
11. **Mabwysiadu'r Saith Maes Allweddol:**
 - i) Rheoliadau Sefydlog
 - ii) Rheoliadau Ariannol
 - iii) Rheoliadau Mewnol
 - iv) Polisi Ymateb i Gwynion
 - v) Asesiad Risg
 - vi) Còd Ymddygiad
 - vii) Cyllid

Edrychwyd dros y saith maes uchod a'i mabwysiadwyd.
12. **Cais Cynllunio:**

Cyfeirnod 0/46071
Ymgeisydd G B Jones
Cynllun Adeiladu estyniad i uned fagu dofednod yn cynnwys seilos a'r holl waith cysylltiedig
Safle Fron Bella, Pentrefoelas
Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau ar y cais.
13. **Gair gan y Cyng. Sirol Garffild Lewis:**

Cafwyd gair gan y Cynghorydd Sirol a dywedodd fod y gwaith o osod camerâu cyflymdra ar yr A543 yn mynd ymlaen.
14. **Unrhyw fater arall:**
 - 14.1. Angen y diweddara ar y cynllun cynllunio sydd gan y Cyngor Sir. Y Cyng. Sirol i holi ymhellach.
15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 13eg 2019 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____

Cadeirydd

Dyddiad _____ 13.05.19